# Y CYNGOR 01/03/12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Leonard Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, E T Dogan , Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn S. Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams, Mandy Williams-Davies a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Dewi R Jones (Pennaeth Addysg), Guto Rhys Huws (Cydlynydd Rhaglenni Ad-drefnu Ysgolion), Tony Bate (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella) Vera Jones (Uwch Reolwr Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Sioned Williams (Pennaeth Economi ac Adfywio) ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Dylan Edwards, Simon Glyn, Huw Price Hughes, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Trevor Roberts a Paul Thomas

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2011.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn arweiniol gan y Swyddog Monitro ynglŷn â dau fater oedd gerbron y Cyngor, sef:-

**Cynlluniau rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain**

Eglurwyd mai amseru ac ariannu cynlluniau oedd eisoes wedi eu penderfynu gan y Cyngor oedd gerbron, ac nid penderfyniad ar ddyfodol unrhyw ysgol.

Cynghorwyd pob aelod oedd â chysylltiad ag un o'r ysgolion dan sylw i ddatgan y buddiant hwnnw, ond nodwyd y byddai'n deg i'r aelod ddod i gasgliad nad oedd yn fuddiant digon arwyddocaol yng nghyd-destun yr hyn oedd dan sylw i'w atal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Eglurwyd bod gan bawb oedd yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned fuddiant i'w ddatgan yn yr eitem hon, ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu os oeddynt wedi eu henwebu i'r CIC gan y Cyngor, a gellid cymryd rhan yn y drafodaeth.

Atgoffwyd yr aelodau o ofynion y Cod Ymddygiad, gan bwysleisio mai cyfrifoldeb pob aelod yn unigol oedd dod i gasgliad ynglŷn â buddiannau i'w datgan, yn dilyn ystyried unrhyw gyngor. Gofynnwyd i aelodau oedd yn ansicr ynglŷn â'u sefyllfa i drafod y mater gyda hi cyn cychwyn y cyfarfod.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Cynlluniau rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain" am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Elwyn Edwards oherwydd bod wyrion iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala;
- Y Cynghorydd T G Ellis oherwydd bod wyresau iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala;
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd bod ganddo blentyn yn mynychu Ysgol Gynradd Dolgellau;
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts oherwydd bod ganddo ferch yn nalgylch y Berwyn, a bod gan ei chwaer blant yn Ysgol Dinas Mawddwy;
- Y Cynghorydd P G Larsen oherwydd bod perthynas teuluol trwy briodas â phennaeth Ysgol y Parc;
- Y Cynghorydd Alan Jones Evans oherwydd bod ganddo gysylltiad gwaith ag Ysgol Bro Tegid, Y Bala ac Ysgol yr Eglwys, Y Bala;
- Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams oherwydd ei fod yn Llywodraethwr Ysgol Machreth;
- Y Cynghorydd Peter Read oherwydd ei fod yn Llywodraethwr Ysgol Hafod Lon

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorwyr Huw Edwards, Eryl Jones Williams a Peter Read ddiddordeb yn yr eitemau yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cyngor Iechyd Cymuned.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol.

(iv) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ddiddordeb hefyd mewn materion yn ymwneud â maes gofal oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal cartref.

Ymholodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams os oedd ganddo hawl i drafod materion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y dyfodol os oedd yn datgan barn yn y cyfarfod hwn. Eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw beth yng nghyfansoddiad y Cyngor oedd yn ei rwystro rhag cymryd rhan mewn trafodaeth yn y dyfodol.

(v) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem Bidiau Refeniw a Chyfalaf am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorwyr June Marshall a Keith Marshal oherwydd eu bod yn Llywodraethwyr Ysgol Cae Top;
- Y Cynghorydd Elin Walker-Davies oherwydd ei bod yn Llywodraethwr Ysgol Cae Top.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol.

(iv) Datganodd Y Cynghorydd Gareth Thomas ddiddordeb personol yn y Rhybudd o Gynnig yn ymwneud ag ynni oherwydd bod ei frawd yng nghyfraith a'i fab yn gweithio yn Atomfa Trawsfynydd;

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol.

(v) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn y Rhybudd o Gynnig ynglŷn â rhaglen "Wedi Saith" am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dyfrig Jones oherwydd ei fod yn aelod o Awdurdod S4C;
- Y Cynghorydd Siân Gwenllïan oherwydd cysylltiad gyda Y Galeri, Caernarfon a'r diwydiant teledu yn lleol;
- Y Cynghorydd Ioan Thomas oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Y Galeri, Caernarfon lle mae'r cwmni'n denantiaid;
- Y Cynghorydd W Tudor Owen oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Y Galeri, Caernarfon

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(vi) Datganodd y Cynghorydd Elin Walker-Davies fuddiant personol yn y mater yn codi o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Chwefror 2012 oherwydd ei bod yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(i) Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Dafydd Roberts a'r teulu ar golli ei fam yng nghyfraith, ynghyd â Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar golli ei frawd.

Yna cydymdeimlwyd a phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar a safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(ii) Croesawyd yn ôl i'r Cyngor y Cynghorydd Eddie Dogan yn dilyn anhwylder diweddar.

(iii) Dymunwyd pen-blwydd hapus i'r Cynghorydd Sylvia Humphreys ar ddathlu ei phen-blwydd y diwrnod hwnnw.

(iv) Anfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorydd Simon Glyn yn dilyn llawdriniaeth.

(v) Cyfeiriwyd at bythefnos Masnach Deg yn ystod mis Mawrth, a gofynnwyd i aelodau godi ymwybyddiaeth i'r digwyddiad yn lleol.

(vi) Nodwyd y bydd y Cynghorydd Guto Thomas a'i blant yn cynnal Taith Beicio a Dringo Noddedig o Ben Nevis i Scafell Pike ac ymlaen at y Wyddfa yn ystod mis Awst eleni, er mwyn codi arian tuag at Lupus Cymru ac Ymchwil Cancr Cymru. Dymunwyd yn dda iddynt ar y daith ac anogwyd aelodau i'w noddi'n hael.

(vii) Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor presennol, dymunwyd yn dda i aelodau oedd yn ymddeol o'r Cyngor ym mis Mai, ac i aelodau oedd yn sefyll etholiad.

Ar ran y swyddogion, diolchodd y Prif Weithredwr i aelodau am eu gwaith yn lleol, ac yn rhedeg busnes y Cyngor. Diolchodd hefyd am y cydweithio llwyddiannus fu rhwng aelodau a swyddogion i symud y Cyngor ymlaen. Dymunodd yn dda i aelodau oedd yn ymddeol ac i aelodau oedd yn sefyll etholiad.

## 4 MATER BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, o dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y rhybudd o gynnig ynglŷn â'r bygythiad i wasanaethau yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth oherwydd bod angen gweithredu yn ddiymdroi.

## 5 CWESTIWN

(a) Cwestiwn y Cynghorydd John Wynn Meredith

*"Pwy ddaru wahodd John Idris Jones i gynghori'r Pwyllgor Craffu Datblygu ar 6 Rhagfyr 2011, er ei fod yn gyflogedig gan Magnox, a pham na ddatguddiwyd ei ddiddordeb personol yn y pwyllgor?"*

Ateb Y Cynghorydd Ioan Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu

"Gwahoddwyd John Idris Jones i'r Pwyllgor Craffu Datblygu gan Bennaeth Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd ar gais Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn eu cyfarfod paratoi 31 Hydref 2011. Yn y cyfarfod paratoi, penderfynodd Aelodau wahodd cynrychiolydd i'r Pwyllgor i ateb cwestiynau yn ymwneud â gofynion hyfforddi a'r sgiliau fyddai eu hangen gan y diwydiant yn y dyfodol. Roedd Aelodau hefyd wedi gofyn am gael cynrychiolydd o Ynys Ynni yn bresennol yn y cyfarfod. Dr John Idris Jones ydi Cadeirydd grŵp Sgiliau Rhaglen Ynys Ynni sydd yn gyfrifol am arwain y cydweithio rhwng nifer o wahanol asiantaethau hyfforddi a gyrfaol yn y rhanbarth i baratoi sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Mae'n gweithio i gwmni Magnox ac yn deall anghenion y diwydiant a'r cyflogwyr. Ystyriwyd mai ef oedd y person mwyaf addas i'w wahodd er mwyn ymateb i ofynion y Pwyllgor. Nid oedd diddordebau personol yn berthnasol i'r pwyllgor hwn. Fe'i gwahoddwyd yn rhinwedd ei broffesiwn fel cynrychiolydd o'r diwydiant.

Yn ogystal, mae cyfarfodydd paratoi ar gyfer pwyllgorau craffu yn bwysig er mwyn rhoi cnawd ar sgerbwd o raglen y pwyllgor. Mae hefyd yn gyfle i gytuno pwy a wahoddir i'r cyfarfod. Yn anffodus, mae presenoldeb aelodau yn y cyfarfodydd hyn yn gyffredinol wan, ac mae'n effeithio ar weithrediad effeithiol y pwyllgor craffu"

Cwestiwn Atodol

*"A gaf i sicrwydd na wahoddir rhywun sydd â diddordeb personol mewn mater i gynghori aelodau yn y dyfodol"*

Ateb

"Dwi ddim yn meddwl y gallaf roi'r sicrwydd yna i chi"

**6 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR**

**(1) CYNLLUNIO BUSNES 2012/13 - BIDIAU REFENIW A CHYFALAF**

(i) Cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar broses blaenoriaethu bidiau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2012/13;

(ii) Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror wedi penderfynu fel a ganlyn mewn perthynas â'r bidiau ar gyfer 201/13:-

*PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2012 i:-*

*(a) gymeradwyo'r bidiau refeniw a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella.*

*(b) gymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella.*

(iii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurwyd y gwahoddir bidiau refeniw a chyfalaf yn flynyddol fel rhan o'r broses o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor. Eleni elo, yn wyneb y sefyllfa ariannol gynyddol heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y categori anorfod yn unig. Er bod y cyd-destun ariannol yn anodd, pwysleisiodd yr Arweinydd bod angen parhau i fod yn uchelgeisiol a bod y drefn yn caniatáu hynny.

Cyfeiriwyd at y broses drylwyr o flaenoriaethu'r bidiau. Pwysleisiwyd eu bod wedi'u herio'n drwyadl gan aelodau, a bod y Grŵp Busnes, y Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor wedi rhoi sylw manwl iddynt ac wedi eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**

**(a) cymeradwyo'r bidiau refeniw a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella.**
**(b) cymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella.**

**(2) STRATEGAETH ARIANNOL 2012/13 – 2014/15**

(i) Cyflwynwyd:-
(a) Adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar strategaeth ariannol 2012/13
(b) Penderfyniad drafft ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2012/13 a datganiad o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor D fesul cymuned.

(ii) Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror wedi penderfynu fel a ganlyn mewn perthynas â chyllideb 2012/13:-

*(a) O ystyried y gyllideb a nodir yn rhan 2 o'r adroddiad a'r sylwadau ychwanegol a wnaed o ran risgiau ariannol sydd wedi'u cyfarch, y dylid cymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2012/13 a'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer dygymod gyda'r diffyg dros y cyfnod 4 blynedd a argymhellir yn yr adroddiad.*

*(b) y dylid cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a nodir yn rhan 5 o'r adroddiad gan gytuno hefyd i amrywio'r ffigur Priffyrdd yn unol â'r hyn y bydd y swm refeniw yn caniatáu i ni ei fenthyca.*

*(c) Tra'n cadw at yr egwyddor sylfaenol fod yn rhaid i ni geisio gwarchod gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn yr hir dymor, y dylid hefyd ceisio cydnabod y sefyllfa economaidd sydd ohoni ar hyn o bryd, ac y dylid meirioli rhywfaint ar y dybiaeth o 3.9% yn adroddiad y Cyfarwyddwr drwy gyflwyno cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor yn 2012/13.*

(iii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid.

Eglurwyd bod angen cymeradwyo cyllideb refeniw, newidiadau bychan i'r strategaeth ariannol pedair blynedd, rhaglen gyfalaf hyd 2015 ynghyd â lefel cynnydd y Dreth Cyngor, er mwyn sefydlu cyllideb ar gyfer 2012/13.

Cyfeiriwyd at y toriadau sector cyhoeddus enbydus oedd i'w gweithredu yn sgil toriad o11% mewn arian refeniw a 40% mewn arian cyfalaf ar gyfer Cymru yn 2012/13.

Adroddwyd bod y toriadau, ynghyd â ffactorau eraill, yn golygu bod bwlch sylweddol yng nghyllideb y Cyngor, a bod rhaid canfod arbedion i wneud yn iawn am y bwlch. Nodwyd bod y Cyngor wedi gweithredu'n gyfrifol a gofalus er mwyn lleihau effaith y toriadau ar drigolion y sir.
Eglurwyd bod rhagolygon llwm ar gyfer y blynyddoedd i ddod, bod her enfawr yn wynebu'r Cyngor newydd, a'i bod yn bwysig glynu wrth y strategaeth ariannol pedair blynedd

Adroddwyd bod y Cyngor mewn sefyllfa i gynyddu'r Dreth Cyngor 3.5% heb orfod darganfod arbedion pellach. Nodwyd bod y cynnydd yn golygu 67c yr wythnos neu lai i fwyafrif gartrefi'r sir, ac atgoffwyd yr aelodau bod 12,000 o deuluoedd y sir naill ai ddim yn talu Treth Cyngor, neu'n cael cymorth i'w dalu.

Nodwyd y byddai llai o gynnydd yn y Dreth Cyngor yn golygu bod rhaid darganfod mwy o arbedion a phwysleisiwyd y byddai hynny'n anodd iawn.

Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo'r argymhellion, a'r cynnydd o 3.5% yn y Dreth Cyngor, er mwyn taro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o bwysau ar drethdalwyr y sir.

(iv) Gwahoddwyd sylwadau ar y bidiau a'r strategaeth

(a) Gan nodi bod cynnydd Treth Cyngor Gwynedd y trydydd uchaf trwy Gymru, a'r uchaf un o ran cynghorau gwledig, pwysodd aelod am gefnogaeth i gadw'r cynnydd o dan lefel chwyddiant.

Cynigwyd ac eiliwyd cynnydd o 2.5% er mwyn gwarchod trigolion y sir.

(b) Nododd aelod arall bod cynghorau Lloegr ynghyd â thri awdurdod yng Nghymru wedi rhewi'r Dreth Cyngor, a bod dyletswydd ar y Cyngor i gefnogi trigolion Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Pwysodd am gefnogaeth i rewi'r Dreth Cyngor ar gyfer 2012/13.

(c) Eglurodd aelod arall bod sail gadarn i'r argymhellion, a'u bod wedi eu trafod yn drylwyr yn y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd. Nododd ei fod yn gresynu na fynegwyd y gwrthwynebiadau ynghynt yn y broses, er mwyn rhoi cyfle i swyddogion ymchwilio i oblygiadau cynnydd is na 3.5%.

(ch) Ategodd sawl aelod bod cynnydd o 3.5% yn taro balans rhwng gwarchod gwasanaethau a pheidio a rhoi pwysau gormodol ar drigolion Gwynedd.

Syrthiodd gwelliant i gynyddu Treth Cyngor 2.5%.

(d) Awgrymodd aelod y dylai'r Cyngor wella'r modd y mae'n ymgysylltu gyda thrigolion y sir er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn deall rhesymeg a bwriad tymor hir y strategaeth ariannol.

Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Bwrdd mewn perthynas â'r bidiau a'r strategaeth ariannol gan gynnwys cynnydd o 3.5% yn y Dreth Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2012/2013 a thu hwnt fel yr argymhellwyd gan Fwrdd y Cyngor ar 14 Chwefror 2012 gan gytuno i gyllideb net yn 2012/13 yn cynnwys ys praeseptau cynghorau cymuned o £220,840,310 a rhaglen gyfalaf o £16.656m ar gyfer 2012/13 ; £16.718m ar gyfer 2013/14 a £13.123m ar gyfer 2014/15.**

2. **Y dylid nodi i Fwrdd y Cyngor , yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2011 gyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2012/2013 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-**

**(a) 49,647.02 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Bwrdd, yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 526.63 | Llanegryn | 147.68 |
| Aberdyfi | 946.25 | Llanelltyd | 281.05 |
| Abergwyngregyn | 111.22 | Llanengan | 1,935.56 |
| Abermaw | 1,093.72 | Llanfair | 315.66 |
| Arthog | 615.56 | Llanfihangel y Pennant | 212.88 |
| Bala | 744.40 | Llanfrothen | 208.76 |
| Bangor | 3,680.40 | Llangelynnin | 395.20 |
| Beddgelert | 316.39 | Llangywair | 129.77 |
| Bethesda | 1,615.56 | Llanllechid | 333.88 |
| Betws Garmon | 132.54 | Llanllyfni | 1,349.95 |
| Bontnewydd | 434.63 | Llannor | 887.40 |
| Botwnnog | 429.01 | Llanrug | 1,098.07 |
| Brithdir a Llanfachreth | 386.84 | Llanuwchllyn | 307.83 |
| Bryncrug | 333.92 | Llanwnda | 761.13 |
| Buan | 225.90 | Llanycil | 188.27 |
| Caernarfon | 3,427.65 | Llanystumdwy | 857.93 |
| Clynnog Fawr | 434.10 | Maentwrog | 275.80 |
| Corris | 296.55 | Mawddwy | 328.18 |
| Criccieth | 923.83 | Nefyn | 1,380.45 |
| Dolbenmaen | 602.18 | Pennal | 206.78 |
| Dolgellau | 1,170.13 | Penrhyndeudraeth | 749.68 |
| Dyffryn Ardudwy | 787.03 | Pentir | 965.82 |
| Ffestiniog | 1,670.12 | Pistyll | 230.83 |
| Harlech | 735.67 | Porthmadog | 1,969.22 |
| Llanaelhaearn | 429.98 | Pwllheli | 1,655.38 |
| Llanbedr | 306.97 | Talsarnau | 307.39 |
| Llanbedrog | 675.23 | Trawsfynydd | 502.68 |
| Llanberis | 755.98 | Tudweiliog | 441.01 |
| Llanddeiniolen | 1,771.85 | Tywyn | 1,520.96 |
| Llandderfel | 493.64 | Waunfawr | 559.38 |
| Llandwrog | 994.35 | Y Felinheli | 1,028.35 |
| Llandygai | 962.67 | Y Ganllwyd | 83.19 |

**sef y symiau a gyfrifwyd gan y Bwrdd, fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2012/2013 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

**(a) £342,087,000** — **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.**

**(b) £121,479,480** — **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf**

**(c) £220,607,520** — **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng**

**cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.**

| | |
|---|---|
| **(ch)£167,833,910** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d) £1,062.98** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.** |
| **(dd) £1,478,360** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf.** |
| **(e) £1,033.20** | **Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.** |

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -**

| | £ | | £ |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,045.54 | Llanegryn | 1,060.29 |
| Aberdyfi | 1,056.56 | Llanelltyd | 1,054.55 |
| Abergwyngregyn | 1,042.19 | Llanengan | 1,053.71 |
| Abermaw | 1,056.06 | Llanfair | 1,051.42 |
| Arthog | 1,047.01 | Llanfihangel y Pennant | 1,052.93 |
| Bala | 1,055.37 | Llanfrothen | 1,052.36 |
| Bangor | 1,107.37 | Llangelynnin | 1,048.38 |
| Beddgelert | 1,053.11 | Llangywair | 1,048.92 |
| Bethesda | 1,065.17 | Llanllechid | 1,046.68 |
| Betws Garmon | 1,046.78 | Llanllyfni | 1,058.34 |
| Bontnewydd | 1,058.51 | Llannor | 1,045.60 |
| Botwnnog | 1,042.52 | Llanrug | 1,051.87 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,052.59 | Llanuwchllyn | 1,061.79 |
| Bryncrug | 1,051.67 | Llanwnda | 1,055.14 |
| Buan | 1,049.80 | Llanycil | 1,049.13 |
| Caernarfon | 1,087.80 | Llanystumdwy | 1,049.81 |
| Clynnog Fawr | 1,047.48 | Maentwrog | 1,053.14 |
| Corris | 1,052.66 | Mawddwy | 1,047.67 |
| Criccieth | 1,068.92 | Nefyn | 1,061.58 |
| Dolbenmaen | 1,049.81 | Pennal | 1,057.38 |
| Dolgellau | 1,069.09 | Penrhyndeudraeth | 1,078.55 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,057.34 | Pentir | 1,059.47 |
| Ffestiniog | 1,076.31 | Pistyll | 1,052.69 |
| Harlech | 1,052.23 | Porthmadog | 1,059.10 |
| Llanaelhaearn | 1,061.11 | Pwllheli | 1,073.67 |
| Llanbedr | 1,059.26 | Talsarnau | 1,065.73 |
| Llanbedrog | 1,052.82 | Trawsfynydd | 1,056.08 |
| Llanberis | 1,058.33 | Tudweiliog | 1,048.96 |
| Llanddeiniolen | 1,038.84 | Tywyn | 1,062.79 |
| Llandderfel | 1,045.96 | Waunfawr | 1,046.36 |
| Llandwrog | 1,060.86 | Y Felinheli | 1,059.46 |
| Llandygai | 1,050.82 | Y Ganllwyd | 1,069.26 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w**

**hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2012/2013 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 143.04 | 166.88 | 190.72 | 214.56 | 262.24 | 309.92 | 357.60 | 429.12 | 500.64 |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2012/2013 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

**(3) DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2012/13**

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid.

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid, a nodwyd bod y mater wedi ei graffu'n fanwl gan y Pwyllgor Archwilio.

Eglurwyd nad oedd y newidiadau diweddar i'r graddfeydd credyd yn effeithio ar yr adroddiad, oherwydd bod y sefyllfa wedi ei rhagdybio ac wedi derbyn ystyriaeth wrth lunio'r strategaethau.

(iii) Gwnaed cais gan aelod i ail-edrych ar gyfraddau llog ar gyfer benthyciadau busnes i gwmnïau lleol, er mwyn sicrhau nad oeddynt yn rhy uchel. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y mater yma eisoes wedi ei adolygu gan y swyddogion perthnasol, ac y bydd cynigion yn derbyn sylw buan gan y Bwrdd Rhaglen Adfywio, gyda golwg i amrywio'r cyfradd llog rhwng 7.5% a 12.5% yn ddibynnol ar lefel y risg.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiad A), Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2012/13 (Atodiad B), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad CH).**

**9 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21**

(i) Adroddwyd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r mater isod yn uwch.

**BWRDD Y CYNGOR 14 CHWEFROR 2012**

**Cynlluniau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain**

(ii) Adroddwyd bod Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2012, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

a) *Cyhoeddi'r rhybuddion statudol priodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyngor ac yn amodol ar ganlyniad y broses statudol, symud ymlaen â'r gwariant priodol yn ysgolion gwledig dalgylch y Berwyn (ysgolion O.M. Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn) ac yn ardal wledig dwyrain Dolgellau (safle ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy).*

b) *Llunio rhaglen waith a cherrig milltir clir ar gyfer gweddill cynlluniau'r Sir, (Campws Gydol Oes yn nhref y Bala, gwelliannau i Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Hafod Lon newydd, ardal Groeslon a Glancegin), sydd yn destun arian o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.*

(iii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Addysg.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn diweddaru sefyllfa Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, ac yn ceisio cefnogaeth i symud ymlaen â chynlluniau perthnasol. Pwysleisiodd bod yr argymhellion yn seiliedig ar benderfyniadau blaenorol y Cyngor, a phwysodd ar aelodau i gefnogi'r argymhellion, er mwyn symud ymlaen i wireddu ewyllys y Cyngor.

Nodwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2011, y byddai disgwyl i Awdurdodau Lleol gyfrannu 50% tuag at becynnau buddsoddi, a bod 50% o gyfraniad gan Lywodraeth Cymru.

Yna ym mis Rhagfyr 2011, cafwyd datganiad fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau amlen fuddsoddi gwerth £36.22 miliwn ar gyfer y cynlluniau Y Berwyn (£10.27 miliwn), Y Gader (£3.60 miliwn), Cynllun Addysg Arbennig a Chynllun Preswyl (£12.40 miliwn), Ardal Groeslon (£4.84 miliwn] a Glan Cegin (£5.11 miliwn).

Pwysleisiwyd bod y gwariant yn ymestyn ar draws y sir ac yn dod â buddion economaidd i gymunedau gwledig a threfol fel ei gilydd.

Rhybuddiodd y gallasai amharodrwydd y Cyngor i symud ymlaen beryglu'r unig ffynhonnell ariannol am y 7 mlynedd nesaf, ac y byddai hyn yn peryglu sawl cynllun.

(v) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

(a) Diolchodd aelod Llandderfel am y gefnogaeth i gyfeirio penderfyniad y Bwrdd yn uwch i'r Cyngor llawn.

Mynegodd bryder dybryd ynglŷn â'r risg o ddarparu 50% o arian cyfatebol heb sicrwydd bod 50% o'r arian ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Cynigwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol:-

"Bod y Cyngor yn gweithredu cynllun dalgylch y Berwyn fel un pecyn, sef sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes ar safle Ysgol y Berwyn, Bala ar y cyd â

chynllun ysgolion gwledig Penllyn, ac nid i fwrw ymlaen â gwariant ar ysgolion gwledig Penllyn ar wahân, hyd nes daw sicrwydd pendant bod 50% o'r arian ar gael gan Lywodraeth Cymru"

Eglurodd y Prif Weithredwr ei bod yn debygol y byddai cefnogi'r gwelliant yn golygu ymgynghori o'r newydd ar y trefniadau.

(b) Galwodd aelod oedd wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhellion yn y Bwrdd am i dynged Ysgol y Parc gael ei ail ystyried. Nododd bod y budd ariannol o gau'r ysgol yn anghymesur a'r golled i'r gymuned, a phwysodd am gefnogaeth i warchod conglfaen cymuned Gymraeg.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai amseru ac ariannu cynlluniau oedd eisoes wedi eu penderfynu gan y Cyngor oedd dan sylw, a'i bod yn anghyfansoddiadol ail ystyried dyfodol unrhyw ysgol.

(ch) Nododd aelod ward Llanuwchllyn bod y risg o golli'r buddsoddiad yn gorbwyso'r risg o symud ymlaen i wario cyfran o arian cyfatebol y Cyngor yn gynnar. Eglurwyd bod nifer cynyddol o blant yn mynychu Ysgol O M Edwards, a bod yr adeilad yn gynyddol anaddas. Roedd sefyllfa gyffelyb yn Ysgol Ffridd y Llyn, ac athrawon yn dyheu am fuddsoddiad.

Pwysleisiodd bod y sefyllfa'n fregus yn Ysgol Bro Tryweryn o ran niferoedd plant, a'i fod yn ofni y byddai oedi'r broses yn peryglu dyfodol yr ysgol. Pwysodd ar y Cyngor i gefnogi'r argymhellion, er mwyn symud ymlaen i ddiogelu addysg wledig yn ardal Penllyn.

(d) Nododd Arweinydd Addysg bod gostyngiad yn nifer disgyblion mewn nifer o ysgolion dalgylch y Berwyn a'r Gader, a bod y sefyllfa'n argyfyngus gydag ysgolion mewn perygl o gau os na fydd y Cyngor yn gweithredu ar frys.

Pwysodd ar y Cyngor i beidio oedi rhag colli'r buddsoddiad a'r cyfle i warchod ysgolion gwledig yn nalgylch y Berwyn ac ardal wledig dwyrain Dolgellau, ynghyd â'r cynlluniau eraill sy'n destun arian o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Syrthiodd gwelliant i weithredu cynllun dalgylch y Berwyn fel un pecyn, sef sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes ar safle Ysgol y Berwyn, Bala ar y cyd a chynllun ysgolion gwledig Penllyn ac nid i fwrw ymlaen a gwariant ar ysgolion gwledig Penllyn ar wahân, hyd nes daw sicrwydd pendant bod 50% o'r arian ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio a phleidleisiwyd ar argymhellion y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD**

**a) Cyhoeddi'r rhybuddion statudol priodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyngor ac yn amodol ar ganlyniad y broses statudol, symud ymlaen â'r gwariant priodol yn ysgolion gwledig dalgylch y Berwyn (ysgolion O.M.**

**Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn) ac yn ardal wledig dwyrain Dolgellau (safle ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy).**

**b) Llunio rhaglen waith a cherrig milltir clir ar gyfer gweddill cynlluniau'r Sir, (Campws Gydol Oes yn nhref y Bala, gwelliannau i Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Hafod Lon newydd, ardal Groeslon a Glancegin), sydd yn destun arian o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.**

Gofynnodd y Cynghorydd P G Larsen am gael cofnodi ei bod wedi atal ei phleidlais ar yr uchod.

## 10 STRATEGAETH ASEDAU 2009/10 – 2018/19

(i) Cyflwynwyd adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol .

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Adnoddau.

(iii) Adroddwyd bod y Cyngor yn Hydref 2009, wedi mabwysiadu Strategaeth Asedau, ac yn dilyn nifer o newidiadau yn yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael, ynghyd â datblygiadau a fu mewn sawl maes gwasanaeth, bu'r Prif Bwyllgor Craffu yn adolygu'r strategaeth. Roedd y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi argymhell fel a ganlyn i'r Cyngor:-

*(a) gydnabod y parheir i gyflawni'r Strategaeth Asedau gwreiddiol er gwaethaf y gostyngiad yn y cymorth ar gyfer benthyca yn y setliad;*
*(b) gydnabod yr angen i gynnwys ac i fenthyca cyfraniad y Cyngor at y cynlluniau ysgolion 21ain ganrif y gwnaed cais am grant ar eu cyfer, ond gan nodi mai dim ond y cynlluniau hynny y bu i ni dderbyn cymeradwyaeth amdanynt y byddwn yn eu cynnwys yn y gyllideb refeniw ar hyn o bryd;*
*(c) ddarparu ar gyfer uchafswm o £15m ar gyfer cynlluniau yn y maes gofal;*
*(ch) y dylid cadw golwg allan a manteisio ar unrhyw gyfle sy'n cyflwyno ei hun i ychwanegu at yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael er mwyn lleihau'r gofyn benthyca i gefnogi'r Strategaeth Asedau diwygiedig*

Eglurwyd bod yr argymhellion wedi eu hymgorffori a'u hamlygu yn y Strategaeth ddiwygiedig oedd gerbron y Cyngor

(iv) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau:-

(a) Mynegodd aelod anfodlonrwydd mawr ynglŷn ag erthygl yn y wasg, oedd yn nodi bod Cartref Hafod y Gest ar werth, er bod y drafodaeth ynglŷn â dyfodol y cartref yn parhau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y strategaeth yn nodi y bydd cartrefi henoed yn cael eu gwaredu yn sgil cynllun Adeiladau'r Dyfodol, sef, pan fydd darpariaeth i gymryd eu lle. Fodd bynnag, os na fydd darpariaeth arall, pwysleisiodd na werthir y safleoedd. Nododd y Cyfarwyddwr bod y mater wedi creu cynnwrf yn y Cartref, a'i fod wedi cysylltu gyda'r Rheolwr i gadarnhau'r sefyllfa.

(b) Nododd aelod arall ei fod yn wrthwynebus i ddymchwel Pier Trefor, gan bwysleisio bod potensial economaidd i'r Pier, a bod ymdrechion yn lleol i geisio grantiau ar gyfer ei adfer.

Eglurodd y Cyfarwyddwr bod penderfyniad eisoes i ddymchwel y Pier oherwydd y gost uchel i'w wneud yn ddiogel. Eglurodd y rhoddir cyfle i'r gymuned ddod o hyd i grantiau. Fodd bynnag, os na fydd yr ymdrechion yn llwyddiannus, cadarnhaodd y bydd rhaid ei ddymchwel, gan bwysleisio bod y strategaeth asedau'n canolbwyntio ar faterion creiddiol.

(ch) Tra'n cytuno bod angen adolygu a gwaredu eiddo'r Cyngor yn gyson, pwysleisiodd aelod bod angen edrych ar anghenion tymor hir y Cyngor cyn gwaredu'r eiddo.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Asedau diwygiedig**

## 11 PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro i gadarnhau meini prawf a chymeradwyo trefn penodi Aelodau Annibynnol, Aelodau Etholedig ac Aelodau Pwyllgor Cymunedol i'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cadarnhau'r Meini Prawf atodedig ar gyfer penodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau;**
**(ii) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i sefydlu Panel Ymgynghorol i ystyried ceisiadau i fod yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau pryd bynnag bydd lle gwag yn codi;**
**(iii) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at holl aelodau cymwys y Cyngor pryd bynnag bydd lle gwag yn codi ar y Pwyllgor Safonau i aelod etholedig, ac i gyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes;**
**(iv) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro sefydlu panel o blith aelodau'r Pwyllgor Safonau i ystyried ceisiadau i fod yn Aelod Pwyllgor Cymunedol pryd bynnag bydd angen penodi aelod newydd o'r fath.**

## 12 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2012/13

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2012/13.

Mynegwyd anfodlonrwydd bod gwrthdaro rhwng cyfarfodydd pwysig y Cyngor. Cyfeiriwyd yn arbennig at wrthdaro parhaus rhwng y Panel Maethu a Phwyllgor Craffu Gofal, a gofynnwyd i swyddogion osgoi hyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu dyddiadur cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2012/13;**
**(ii) Gofyn i swyddogion adnabod dyddiadau cyfarfodydd eraill i'w cynnwys yn nyddiadur y Cyngor ac osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd pwysig.**

## 13 DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS A'R COMPACT

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr ar gymeradwyo Compact rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.

(ii) Adroddwyd bod Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2012 wedi argymell y dylid cymeradwyo derbyn y Compact ar sail amodol.

(iii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurwyd bod Gweinidog Llywodraeth Leol yn awyddus i sicrhau bod awdurdodau'n cyflawni trwy gydweithio, a bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn i gynghorau arwyddo'r 'Compact.

Pwysleisiwyd mai prif fwriad y Compact oedd "gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chanlyniadau i bobl Cymru". Cyfeiriwyd at yr opsiynau oedd ar gael i'r Cyngor a nodwyd bod y Bwrdd wedi rhoi cymeradwyaeth amodol i'r Compact.

(a) Gwahoddwyd aelodau i gynnig sylwadau a nodwyd y materion canlynol:-

- Bod rhaid sicrhau bod pob cydweithio yn esgor ar fuddion i drigolion y sir;
- Bod rhaid gwarchod a chefnogi statws yr iaith gan gynnal diwylliant ac ethos presennol y Cyngor o ran defnyddio'r iaith er mwyn gwarchod y sefyllfa unigryw
- Bod rhaid edrych i gydweithio gydag ardaloedd sy'n rhannu'r un tueddiadau demograffeg a Gwynedd er mwyn gwarchod yr iaith Gymraeg

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Compact rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ar sail amodol gan nodi y bydd Gwynedd yn parhau i chwarae rhan gadarnhaol wrth gyflawni'r ymrwymiadau yn y Compact ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf llwyddiant y Cyngor:**

- **Manteision busnes cadarnhaol i'r Cyngor yn nhermau ariannol, perfformiad a gwella gwydnwch gwasanaeth.**
- **Gwell elw ar ein buddsoddiad, o safbwynt amser swyddogion ac aelodau a chostau eraill, o gymharu â chyfleoedd amgen am fuddion busnes a allai fod yn gydweithiol eu natur neu beidio.**
- **Gwarchod a chefnogi statws yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r sir**
- **Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd derbyniol.**
- **Cadw ein rôl comisiynu.**
- **Dosbarthiad teg o gyfleoedd cyflogaeth.**
- **Lefelau derbyniol o risg.**
- **Yn nhermau daearyddiaeth, cydweithio ar draws ardaloedd sy'n dderbyniol i Gyngor Gwynedd (h.y. nid y patrwm cydweithio rhanbarthol o reidrwydd).**
- **Amserlenni realistig.**

**14 MATER YN CODI O'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL AR 7 CHWEFROR 2012 - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

(a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal yn gofyn i'r Cyngor ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

(b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal.

Adroddwyd bod Pwyllgor Craffu Gofal yn parhau i fod yn anhapus gyda rhai o ymatebion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â threfniadau cau wardiau ysbytai yng Ngwynedd, ac wedi penderfynu gofyn i'r Cyngor ystyried yr argymhellion canlynol a gweithredu'n fel sy'n briodol:-

*(i) Datgan diffyg hyder yn y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfathrebu hefo'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r cyhoedd ynglŷn â phenderfyniadau ynghlwm â threfniadau cau tymor byr wardiau ysbyty yng Ngwynedd;*
*(ii) Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau i sicrhau gwelliant yn y gyfundrefn ymgynghori a chyfathrebu o'r math yma i'r dyfodol.*

Gyda chytundeb y Cyngor diwygiwyd argymhellion y pwyllgor craffu fel a ganlyn:-

*(i) Datgan diffyg hyder yn y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr <u>a'r</u> Cyngor Iechyd Cymuned wedi cyfathrebu ynglŷn â phenderfyniadau ynghlwm â threfniadau cau tymor byr wardiau ysbyty yng Ngwynedd;*
*(ii) Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr <u>a</u> Chyngor Iechyd Cymuned i adolygu eu trefniadau i sicrhau gwelliant yn y gyfundrefn ymgynghori a chyfathrebu o'r math yma i'r dyfodol.*

(c) Gwahoddwyd aelodau i gynnig sylwadau.

Mynegodd aelod bryder dybryd ynglŷn â'r gwaith ychwanegol y bydd disgwyl i Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ei gyflawni ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nododd anfodlonrwydd na drafodwyd y trefniadau gydag aelodau etholedig.

Hefyd, nododd aelodau oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned, bod y corff yn amharod i wrando'u barn ac ymateb i'w pryderon.

Diolchwyd i Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal am ei waith diflino dros drigolion y sir.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Datgan diffyg hyder yn y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a' r Cyngor Iechyd Cymuned wedi cyfathrebu ynglŷn â**

**phenderfyniadau ynghlwm â threfniadau cau tymor byr wardiau ysbyty yng Ngwynedd;**

**(ii) Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Iechyd Cymuned i adolygu eu trefniadau i sicrhau gwelliant yn y gyfundrefn ymgynghori a chyfathrebu o'r math yma i'r dyfodol.**

## 15 RHYBUDD O GYNIGION

(A)(i) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Stephen Churchman i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar y Llywodraeth i gynhyrchu trydan yng ngogledd orllewin Cymru drwy ddulliau gwyrdd, a chymryd y cyfle i greu cyflogaeth ystyrlon heb wneud unrhyw fuddsoddiad pellach drwy'r Diwydiant Niwclear.**

**Wrth gydnabod yr angen am gyflogaeth ac ynni, credwn fod yna ddewis hyfyw gwahanol i Ynni Niwclear sydd, nid yn unig yn fwy diogel, ond hefyd yn fwy fforddiadwy a allai ddarparu cyflogaeth i boblogaeth gyffredinol Cymru yn hytrach na charfan fechan, ddethol a'r rheini sydd wedi elwa o lefel o hyfforddiant sgiliau nad yw ar gael yn rhwydd i bobl gyffredin Cymru.**

**Mae trydan yn rhywbeth yr ydym oll yn disgwyl iddo fod ar gael ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'n cael ei gynhyrchu yn fater cynhennus ac mae'r etifeddiaeth yr ydym yn ei gadael i'r plant a'n wyrion yr un mor bwysig. I'r perwyl hwn, credwn mai trydan gwyrdd o ffynonellau ac adnoddau adnewyddadwy yw'r ffordd orau o ddarparu trydan glân a diogel sydd, wrth ei gynhyrchu, yn creu cyflogaeth ystyrlon sy'n diogelu ein cymunedau a'n diwylliant unigryw yma yng ngogledd orllewin Cymru."**

(ii) Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant *canlynol:-*

*"Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli holl rymoedd ym maes ynni i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan sicrhau'r hawl i Lywodraeth Cymru greu cynllun ynni cynhwysfawr bydd yn uchafu sefyllfa arbennig Cymru yn y maes hwn, a hynny o safbwynt budd amgylcheddol ac economaidd.*

Eglurodd cynigydd y gwelliant bod y gwelliant yn sicrhau dylanwad ar bwnc astrus oedd yn allweddol bwysig i Ogledd Orllewin Cymru a Chymru gyfan. Pwysleisiodd bod angen dechrau trafodaeth ar ddatganoli'r pŵer, er mwyn i bobl Cymru gael penderfynu eu tynged, a chynllunio'n bwrpasol, er mwyn sicrhau buddion.

(iii) Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol ei fod yn deall y dyhead i ddatganoli grym ym maes ynni i Lywodraeth Cymru, ond roedd o'r farn bod y gwelliant yn fater cwbl ar wahân i'r cynnig gwreiddiol.

Pwysleisiodd brif ragoriaethau ynni adnewyddol megis cyflogaeth ystyrlon a diogelwch, a phwysodd ar y Cyngor i gefnogi'r cynnig.

(iv) Nodwyd bod gwahaniaeth barn ymysg yr aeldoau ynglyn â manteision ac anfantiesion gwahanol ddulliau o gynhyrchu ynni, ond roedd cefnogaeth gyffredinol i ddatganoli grymoedd ym maes ynni i Lywodraeth Cymru, a phasiwyd y gwelliant.

(v) Gan bwysleisio bod y gwelliant yn fater cymhleth oedd angen ystyriaeth ddwys, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach i ohirio penderfyniad ar y mater a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor newydd.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant pellach wedi syrthio a phleidleisiwyd ar y cynnig fel yr oedd wedi'i wella.

**PENDERFYNWYD bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli holl rymoedd ym maes ynni i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan sicrhau hawl i Lywodraeth Cymru greu cynllun ynni cynhwysfawr bydd yn uchafu sefyllfa arbennig Cymru yn y maes hwn, a hynny o safbwynt budd amgylcheddol ac economaidd.**

Adroddwyd, yn dilyn y ddaeargryn a'r swnami yn Siapan, y penderfynwyd fel a ganlyn gan y Cyngor ar 12 Mai 2011:-

*(i) Bod Cyngor Gwynedd yn mynegi ei gydymdeimlad dwysaf â phobl Japan, yn dilyn y daeargryn a'r swnami yno; yn nodi bod difrod i o leiaf bedwar o bwerdai niwclear y wlad, yn cynnwys Fukushima Daiichi; yn edmygu dewrder ac arbenigedd y gweithwyr sydd yn ceisio diogelu'r gorsafoedd hynny; yn croesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd tros Ynni i ofyn am adroddiad gan y Prif Archwilydd Niwclear yng Ngwledydd Prydain ar oblygiadau'r digwyddiad yn Japan*

*(ii) Bod Pwyllgor Craffu Datblygu'n ystyried canlyniadau adroddiad y Prif Archwilydd Niwclear ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn*

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned ar y rhybuddion o gynnig uchod.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Economaidd a Chymuned ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Datblygu**

(B)(i) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Huw Edwards, yn gofyn am gael trafod y cynnig yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

(ii) Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Bod y Cyngor yn datgan syndod a siom o glywed am y penderfyniad i gau swyddfa "Wedi Saith" yng Nghaernarfon, a diswyddo dau o'r cyflwynwyr , ac yn gofyn i Gwmni Tinopolis ail ystyried eu penderfyniad"*

Nododd yr aelod bod "Wedi Saith" yn rhaglen fywiog gydag eitemau byw diddorol o wahanol leoliadau o gwmpas Cymru. Eglurodd bod y swyddfa yng Nghaernarfon yn sicrhau fod canran deg o eitemau yn cael eu darlledu o Gaernarfon, o leoliadau lleol ac o Ogledd Cymru yn gyffredinol. Roedd hefyd yn rhoddi gwaith i gyflwynwyr a thimau technegol.

O gau'r swyddfa yng Nghaernarfon teimlai y bydd dirywiad yn ansawdd y rhaglenni o'r Gogledd, a bydd colli swyddi yn ergyd i dref Caernarfon a'r cylch.

Pwysodd ar y Cyngor i ofyn i Gwmni Tinopolis ail ystyried ei benderfyniad

(iii) Cytunodd y cynigydd a'r eilydd i ychwanegu'r canlynol at y cynnig gwreiddiol

*"Bod Cyngor Gwynedd yn agor trafodaethau ffurfiol efo penaethiaid S4C, gyda'r nod o ddatganoli rhai swyddi yma i ardal Caernarfon"*

Eglurodd yr aelod ei fod o'r farn bod y cynnig gwreiddiol yn adlewyrchiad o'r sefyllfa sy'n ein hwynebu erbyn hyn, a bod y penderfyniad i symud o Gaernarfon yn benderfyniad gan gwmni masnachol am resymau masnachol. Nododd bod tranc "Wedi Saith" yn symptom o ddirywiad pellach yn y diwydiant cyfryngau yn ardal Caernarfon.

Pwysleisiodd bod y diwydiant cyfryngau a theledu yn bwysig iawn i Gymru. Eglurodd bod Gwynedd yn ganolfan rhagoriaeth yn y maes yn y gorffennol, ond roedd llawer iawn o'r swyddi cysylltiol wedi eu sugno i'r De ac i Gaerdydd yn arbennig erbyn hyn.

Cyfeiriodd at adroddiad gan Brifysgol Caerdydd oedd yn amcangyfrif bod cyfraniad S4C i economi Cymru yn filiynau lawer, ac er derbyn toriadau sylweddol i'w cyllid, pwysleisiodd bod y cyfraniad i'r economi yn dal i fod yn sylweddol iawn.

Yn yr oes ddigidol, a gyda datblygiadau technegol, roedd yr aelod o'r farn na fyddai'n anodd datganoli swyddi sylweddol o bencadlys S4C yng Nghaerdydd i ardal Caernarfon ac y dylid pwyso am drafodaeth i'r perwyl.

(iv) Adroddodd yr Arweinydd ei fod mewn trafodaethau gyda S4C ers rhai misoedd, a bod ganddo gyfarfod yn fuan gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr S4C i drafod y mater hwn.Nododd y byddai'n falch o gael cefnogaeth y Cyngor i gryfhau'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(i) bod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at Gwmni Tinopolis i ddatgan siom ynglŷn â'r penderfyniad i gau swyddfa "Wedi Saith" yng Nghaernarfon a gofyn iddynt ail ystyried eu penderfyniad' hefyd,**

**(i) bod Cyngor Gwynedd yn agor trafodaethau ffurfiol efo penaethiaid S4C gyda'r nod o ddatganoli rhai swyddi i ardal Caernarfon"**

(C) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig brys, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn gofyn am gael trafod y cynnig yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Fod y Cyngor yn datgan pryder am y bygythiad i wasanaethau yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ac yn cefnogi'r ymdrechion i amddiffyn darpariaethau Meddygol sydd mor bwysig i gleifion yn Ne Meirionnydd, ac yn cefnogi'r cynnig diweddar gan Gyngor Ceredigion sef:-*

*Oherwydd ei leoliad daearyddol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn argymell yn gryf bod Ysbyty Bronglais yn cael ei ddatblygu fel Canolfan Rhagoriaeth i Feddygaeth Gwledig, gan gynnwys gwasanaethau meddygol a llawfeddygol. Galwn ar y Gweinidog Iechyd i fyny cydweithio llawn rhwng Byrddau Iechyd Hywel ?Dda, Betsi /Cadwaladr a Phowys i sicrhau bod hyn yn digwydd"*

Cyfeiriwyd at y brotest yn y Senedd y diwrnod cynt gyda'r protestwyr yn galw ar y Gweinidog Iechyd i warchod gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Pwysleisiodd y cynigydd bod yr ysbyty'n bwysig i drigolion Meirionnydd, a bod angen sicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau i'r dyfodol

Nodwyd gan aelod oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn y Senedd bod y Gweinidog Iechyd wedi datgan yn glir bod angen i'r tri Bwrdd Iechyd gydweithio, ac y byddai'n sicrhau bod hynny'n digwydd.

Nododd aelod arall ei bod yn bwysig bod llais bobl Dde Gwynedd yn cael ei glywed.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn datgan pryder am y bygythiad i wasanaethau yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ac yn cefnogi'r ymdrechion i amddiffyn darpariaethau Meddygol sydd mor bwysig i gleifion yn Ne Meirionnydd, ac yn cefnogi'r cynnig diweddar gan Gyngor Ceredigion sef:-**

**Oherwydd ei leoliad daearyddol, mae Cyngor Sir /Ceredigion yn argymell yn gryf bod Ysbyty Bronglais yn cael ei ddatblygu fel Canolfan Rhagoriaeth i Feddygaeth Gwledig, gan gynnwys gwasanaethau meddygol a llawfeddygol. Galwn ar y Gweinidog Iechyd i fyny cydweithio llawn rhwng Byrddau Iechyd Hywel Dda, Betsi /Cadwaladr a Phowys i sicrhau bod hyn yn digwydd"**

(D)

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd i'r Cyngor ar 12 Mai 2011 rybudd o gynnig bod y Cyngor yn ail edrych ar y ffioedd i'r cynllun parcio i drigolion ar ôl ystyried ymateb y trigolion i'r ymgynghoriadau sydd eisoes wedi cymryd lle. Penderfynodd y Cyngor ofyn i Bwyllgor Craffu Amgylchedd ystyried y cynllun parcio i breswylwyr yn ei gyfanrwydd.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar drafodion y pwyllgor craffu

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd**

(DD)

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Hydref 2011 rhybudd o gynnig bod y Cyngor yn cymryd camau yn ddi-oed i atal codi unrhyw dal ar fusnesau mewn trefi'r Sir am osod dodrefn stryd er mwyn denu cwsmeriaid. Penderfynodd y Cyngor beidio trafod y cynnig yn y cyfarfod a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar drafodion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd

(iii) Mewn perthynas â phryder ynglŷn â diogelwch pobl ddall gofynnwyd i swyddogion sicrhau bod terfyn diogel o amgylch y safle,

Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio, pan oedd gosod terfyn yn berthnasol i safle lle bod trwyddedau wedi eu caniatáu, bod y gwasanaeth yn sicrhau bod hynny'n digwydd. Nododd nad oedd angen terfyn ar gyfer pob safle.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd**

(E)

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Hydref 2011 rhybudd o gynnig bod y Cyngor yn cymryd mesurau i warchod trigolion ac ymwelwyr rhag gwylanod mor sy'n creu niwsans mewn rhai o drefn arfordirol y sir. Penderfynodd y Cyngor beidio trafod y cynnig yn y cyfarfod a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar drafodion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd**

(F)

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Hydref 2011 rhybudd o gynnig bod y Cyngor yn diddymu'r arfer presennol o ddynodi man yn agos i Doc Fictoria fel prif safle bysiau a'i symud i'r Maes er ceisio achub canol i dref a'r busnesau. Penderfynodd y Cyngor beidio trafod y cynnig yn y cyfarfod a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar drafodion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.45 p.m.

____________________

**CADEIRYDD**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 697.03 | 813.20 | 929.37 | 1,045.54 | 1,277.88 | 1,510.22 | 1,742.57 | 2,091.08 | 2,439.59 |
| Aberdyfi | 704.37 | 821.77 | 939.16 | 1,056.56 | 1,291.35 | 1,526.14 | 1,760.93 | 2,113.12 | 2,465.31 |
| Abergwyngregyn | 694.79 | 810.59 | 926.39 | 1,042.19 | 1,273.79 | 1,505.39 | 1,736.98 | 2,084.38 | 2,431.78 |
| Abermaw | 704.04 | 821.38 | 938.72 | 1,056.06 | 1,290.74 | 1,525.42 | 1,760.10 | 2,112.12 | 2,464.14 |
| Arthog | 698.01 | 814.34 | 930.68 | 1,047.01 | 1,279.68 | 1,512.35 | 1,745.02 | 2,094.02 | 2,443.02 |
| Bala | 703.58 | 820.84 | 938.11 | 1,055.37 | 1,289.90 | 1,524.42 | 1,758.95 | 2,110.74 | 2,462.53 |
| Bangor | 738.25 | 861.29 | 984.33 | 1,107.37 | 1,353.45 | 1,599.53 | 1,845.62 | 2,214.74 | 2,583.86 |
| Beddgelert | 702.07 | 819.09 | 936.10 | 1,053.11 | 1,287.13 | 1,521.16 | 1,755.18 | 2,106.22 | 2,457.26 |
| Bethesda | 710.11 | 828.47 | 946.82 | 1,065.17 | 1,301.87 | 1,538.58 | 1,775.28 | 2,130.34 | 2,485.40 |
| Betws Garmon | 697.85 | 814.16 | 930.47 | 1,046.78 | 1,279.40 | 1,512.02 | 1,744.63 | 2,093.56 | 2,442.49 |
| Bontnewydd | 705.67 | 823.29 | 940.90 | 1,058.51 | 1,293.73 | 1,528.96 | 1,764.18 | 2,117.02 | 2,469.86 |
| Botwnnog | 695.01 | 810.85 | 926.68 | 1,042.52 | 1,274.19 | 1,505.86 | 1,737.53 | 2,085.04 | 2,432.55 |
| Brithdir a Llanfachreth | 701.73 | 818.68 | 935.64 | 1,052.59 | 1,286.50 | 1,520.41 | 1,754.32 | 2,105.18 | 2,456.04 |
| Bryncrug | 701.11 | 817.97 | 934.82 | 1,051.67 | 1,285.37 | 1,519.08 | 1,752.78 | 2,103.34 | 2,453.90 |
| Buan | 699.87 | 816.51 | 933.16 | 1,049.80 | 1,283.09 | 1,516.38 | 1,749.67 | 2,099.60 | 2,449.53 |
| Caernarfon | 725.20 | 846.07 | 966.93 | 1,087.80 | 1,329.53 | 1,571.27 | 1,813.00 | 2,175.60 | 2,538.20 |
| Clynnog Fawr | 698.32 | 814.71 | 931.09 | 1,047.48 | 1,280.25 | 1,513.03 | 1,745.80 | 2,094.96 | 2,444.12 |
| Corris | 701.77 | 818.74 | 935.70 | 1,052.66 | 1,286.58 | 1,520.51 | 1,754.43 | 2,105.32 | 2,456.21 |
| Criccieth | 712.61 | 831.38 | 950.15 | 1,068.92 | 1,306.46 | 1,544.00 | 1,781.53 | 2,137.84 | 2,494.15 |
| Dolbenmaen | 699.87 | 816.52 | 933.16 | 1,049.81 | 1,283.10 | 1,516.39 | 1,749.68 | 2,099.62 | 2,449.56 |
| Dolgellau | 712.73 | 831.51 | 950.30 | 1,069.09 | 1,306.67 | 1,544.24 | 1,781.82 | 2,138.18 | 2,494.54 |
| Dyffryn Ardudwy | 704.89 | 822.38 | 939.86 | 1,057.34 | 1,292.30 | 1,527.27 | 1,762.23 | 2,114.68 | 2,467.13 |
| Ffestiniog | 717.54 | 837.13 | 956.72 | 1,076.31 | 1,315.49 | 1,554.67 | 1,793.85 | 2,152.62 | 2,511.39 |
| Harlech | 701.49 | 818.40 | 935.32 | 1,052.23 | 1,286.06 | 1,519.89 | 1,753.72 | 2,104.46 | 2,455.20 |
| Llanaelhaearn | 707.41 | 825.31 | 943.21 | 1,061.11 | 1,296.91 | 1,532.71 | 1,768.52 | 2,122.22 | 2,475.92 |
| Llanbedr | 706.17 | 823.87 | 941.56 | 1,059.26 | 1,294.65 | 1,530.04 | 1,765.43 | 2,118.52 | 2,471.61 |
| Llanbedrog | 701.88 | 818.86 | 935.84 | 1,052.82 | 1,286.78 | 1,520.74 | 1,754.70 | 2,105.64 | 2,456.58 |
| Llanberis | 705.55 | 823.15 | 940.74 | 1,058.33 | 1,293.51 | 1,528.70 | 1,763.88 | 2,116.66 | 2,469.44 |
| Llanddeiniolen | 692.56 | 807.99 | 923.41 | 1,038.84 | 1,269.69 | 1,500.55 | 1,731.40 | 2,077.68 | 2,423.96 |
| Llandderfel | 697.31 | 813.52 | 929.74 | 1,045.96 | 1,278.40 | 1,510.83 | 1,743.27 | 2,091.92 | 2,440.57 |
| Llandwrog | 707.24 | 825.11 | 942.99 | 1,060.86 | 1,296.61 | 1,532.35 | 1,768.10 | 2,121.72 | 2,475.34 |
| Llandygai | 700.55 | 817.30 | 934.06 | 1,050.82 | 1,284.34 | 1,517.85 | 1,751.37 | 2,101.64 | 2,451.91 |
| Llanegryn | 706.86 | 824.67 | 942.48 | 1,060.29 | 1,295.91 | 1,531.53 | 1,767.15 | 2,120.58 | 2,474.01 |
| Llanelltyd | 703.03 | 820.21 | 937.38 | 1,054.55 | 1,288.89 | 1,523.24 | 1,757.58 | 2,109.10 | 2,460.62 |
| Llanengan | 702.47 | 819.55 | 936.63 | 1,053.71 | 1,287.87 | 1,522.03 | 1,756.18 | 2,107.42 | 2,458.66 |
| Llanfair | 700.95 | 817.77 | 934.60 | 1,051.42 | 1,285.07 | 1,518.72 | 1,752.37 | 2,102.84 | 2,453.31 |
| Llanfihangel y Pennant | 701.95 | 818.95 | 935.94 | 1,052.93 | 1,286.91 | 1,520.90 | 1,754.88 | 2,105.86 | 2,456.84 |
| Llanfrothen | 701.57 | 818.50 | 935.43 | 1,052.36 | 1,286.22 | 1,520.08 | 1,753.93 | 2,104.72 | 2,455.51 |
| Llangelynnin | 698.92 | 815.41 | 931.89 | 1,048.38 | 1,281.35 | 1,514.33 | 1,747.30 | 2,096.76 | 2,446.22 |
| Llangywair | 699.28 | 815.83 | 932.37 | 1,048.92 | 1,282.01 | 1,515.11 | 1,748.20 | 2,097.84 | 2,447.48 |
| Llanllechid | 697.79 | 814.08 | 930.38 | 1,046.68 | 1,279.28 | 1,511.87 | 1,744.47 | 2,093.36 | 2,442.25 |
| Llanllyfni | 705.56 | 823.15 | 940.75 | 1,058.34 | 1,293.53 | 1,528.71 | 1,763.90 | 2,116.68 | 2,469.46 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llannor | 697.07 | 813.24 | 929.42 | 1,045.60 | 1,277.96 | 1,510.31 | 1,742.67 | 2,091.20 | 2,439.73 |
| Llanrug | 701.25 | 818.12 | 935.00 | 1,051.87 | 1,285.62 | 1,519.37 | 1,753.12 | 2,103.74 | 2,454.36 |
| Llanuwchllyn | 707.86 | 825.84 | 943.81 | 1,061.79 | 1,297.74 | 1,533.70 | 1,769.65 | 2,123.58 | 2,477.51 |
| Llanwnda | 703.43 | 820.66 | 937.90 | 1,055.14 | 1,289.62 | 1,524.09 | 1,758.57 | 2,110.28 | 2,461.99 |
| Llanycil | 699.42 | 815.99 | 932.56 | 1,049.13 | 1,282.27 | 1,515.41 | 1,748.55 | 2,098.26 | 2,447.97 |
| Llanystumdwy | 699.87 | 816.52 | 933.16 | 1,049.81 | 1,283.10 | 1,516.39 | 1,749.68 | 2,099.62 | 2,449.56 |
| Maentwrog | 702.09 | 819.11 | 936.12 | 1,053.14 | 1,287.17 | 1,521.20 | 1,755.23 | 2,106.28 | 2,457.33 |
| Mawddwy | 698.45 | 814.85 | 931.26 | 1,047.67 | 1,280.49 | 1,513.30 | 1,746.12 | 2,095.34 | 2,444.56 |
| Nefyn | 707.72 | 825.67 | 943.63 | 1,061.58 | 1,297.49 | 1,533.39 | 1,769.30 | 2,123.16 | 2,477.02 |
| Pennal | 704.92 | 822.41 | 939.89 | 1,057.38 | 1,292.35 | 1,527.33 | 1,762.30 | 2,114.76 | 2,467.22 |
| Penrhyndeudraeth | 719.03 | 838.87 | 958.71 | 1,078.55 | 1,318.23 | 1,557.91 | 1,797.58 | 2,157.10 | 2,516.62 |
| Pentir | 706.31 | 824.03 | 941.75 | 1,059.47 | 1,294.91 | 1,530.35 | 1,765.78 | 2,118.94 | 2,472.10 |
| Pistyll | 701.79 | 818.76 | 935.72 | 1,052.69 | 1,286.62 | 1,520.55 | 1,754.48 | 2,105.38 | 2,456.28 |
| Porthmadog | 706.07 | 823.74 | 941.42 | 1,059.10 | 1,294.46 | 1,529.81 | 1,765.17 | 2,118.20 | 2,471.23 |
| Pwllheli | 715.78 | 835.08 | 954.37 | 1,073.67 | 1,312.26 | 1,550.86 | 1,789.45 | 2,147.34 | 2,505.23 |
| Talsarnau | 710.49 | 828.90 | 947.32 | 1,065.73 | 1,302.56 | 1,539.39 | 1,776.22 | 2,131.46 | 2,486.70 |
| Trawsfynydd | 704.05 | 821.40 | 938.74 | 1,056.08 | 1,290.76 | 1,525.45 | 1,760.13 | 2,112.16 | 2,464.19 |
| Tudweiliog | 699.31 | 815.86 | 932.41 | 1,048.96 | 1,282.06 | 1,515.16 | 1,748.27 | 2,097.92 | 2,447.57 |
| Tywyn | 708.53 | 826.61 | 944.70 | 1,062.79 | 1,298.97 | 1,535.14 | 1,771.32 | 2,125.58 | 2,479.84 |
| Waunfawr | 697.57 | 813.84 | 930.10 | 1,046.36 | 1,278.88 | 1,511.41 | 1,743.93 | 2,092.72 | 2,441.51 |
| Y Felinheli | 706.31 | 824.02 | 941.74 | 1,059.46 | 1,294.90 | 1,530.33 | 1,765.77 | 2,118.92 | 2,472.07 |
| Y Ganllwyd | 712.84 | 831.65 | 950.45 | 1,069.26 | 1,306.87 | 1,544.49 | 1,782.10 | 2,138.52 | 2,494.94 |

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 840.07 | 980.08 | 1,120.09 | 1,260.10 | 1,540.12 | 1,820.14 | 2,100.17 | 2,520.20 | 2,940.23 |
| Aberdyfi | 847.41 | 988.65 | 1,129.88 | 1,271.12 | 1,553.59 | 1,836.06 | 2,118.53 | 2,542.24 | 2,965.95 |
| Abergwyngregyn | 837.83 | 977.47 | 1,117.11 | 1,256.75 | 1,536.03 | 1,815.31 | 2,094.58 | 2,513.50 | 2,932.42 |
| Abermaw | 847.08 | 988.26 | 1,129.44 | 1,270.62 | 1,552.98 | 1,835.34 | 2,117.70 | 2,541.24 | 2,964.78 |
| Arthog | 841.05 | 981.22 | 1,121.40 | 1,261.57 | 1,541.92 | 1,822.27 | 2,102.62 | 2,523.14 | 2,943.66 |
| Bala | 846.62 | 987.72 | 1,128.83 | 1,269.93 | 1,552.14 | 1,834.34 | 2,116.55 | 2,539.86 | 2,963.17 |
| Bangor | 881.29 | 1,028.17 | 1,175.05 | 1,321.93 | 1,615.69 | 1,909.45 | 2,203.22 | 2,643.86 | 3,084.50 |
| Beddgelert | 845.11 | 985.97 | 1,126.82 | 1,267.67 | 1,549.37 | 1,831.08 | 2,112.78 | 2,535.34 | 2,957.90 |
| Bethesda | 853.15 | 995.35 | 1,137.54 | 1,279.73 | 1,564.11 | 1,848.50 | 2,132.88 | 2,559.46 | 2,986.04 |
| Betws Garmon | 840.89 | 981.04 | 1,121.19 | 1,261.34 | 1,541.64 | 1,821.94 | 2,102.23 | 2,522.68 | 2,943.13 |
| Bontnewydd | 848.71 | 990.17 | 1,131.62 | 1,273.07 | 1,555.97 | 1,838.88 | 2,121.78 | 2,546.14 | 2,970.50 |
| Botwnnog | 838.05 | 977.73 | 1,117.40 | 1,257.08 | 1,536.43 | 1,815.78 | 2,095.13 | 2,514.16 | 2,933.19 |
| Brithdir a Llanfachreth | 844.77 | 985.56 | 1,126.36 | 1,267.15 | 1,548.74 | 1,830.33 | 2,111.92 | 2,534.30 | 2,956.68 |
| Bryncrug | 844.15 | 984.85 | 1,125.54 | 1,266.23 | 1,547.61 | 1,829.00 | 2,110.38 | 2,532.46 | 2,954.54 |
| Buan | 842.91 | 983.39 | 1,123.88 | 1,264.36 | 1,545.33 | 1,826.30 | 2,107.27 | 2,528.72 | 2,950.17 |
| Caernarfon | 868.24 | 1,012.95 | 1,157.65 | 1,302.36 | 1,591.77 | 1,881.19 | 2,170.60 | 2,604.72 | 3,038.84 |
| Clynnog Fawr | 841.36 | 981.59 | 1,121.81 | 1,262.04 | 1,542.49 | 1,822.95 | 2,103.40 | 2,524.08 | 2,944.76 |
| Corris | 844.81 | 985.62 | 1,126.42 | 1,267.22 | 1,548.82 | 1,830.43 | 2,112.03 | 2,534.44 | 2,956.85 |
| Criccieth | 855.65 | 998.26 | 1,140.87 | 1,283.48 | 1,568.70 | 1,853.92 | 2,139.13 | 2,566.96 | 2,994.79 |
| Dolbenmaen | 842.91 | 983.40 | 1,123.88 | 1,264.37 | 1,545.34 | 1,826.31 | 2,107.28 | 2,528.74 | 2,950.20 |
| Dolgellau | 855.77 | 998.39 | 1,141.02 | 1,283.65 | 1,568.91 | 1,854.16 | 2,139.42 | 2,567.30 | 2,995.18 |
| Dyffryn Ardudwy | 847.93 | 989.26 | 1,130.58 | 1,271.90 | 1,554.54 | 1,837.19 | 2,119.83 | 2,543.80 | 2,967.77 |
| Ffestiniog | 860.58 | 1,004.01 | 1,147.44 | 1,290.87 | 1,577.73 | 1,864.59 | 2,151.45 | 2,581.74 | 3,012.03 |
| Harlech | 844.53 | 985.28 | 1,126.04 | 1,266.79 | 1,548.30 | 1,829.81 | 2,111.32 | 2,533.58 | 2,955.84 |
| Llanaelhaearn | 850.45 | 992.19 | 1,133.93 | 1,275.67 | 1,559.15 | 1,842.63 | 2,126.12 | 2,551.34 | 2,976.56 |
| Llanbedr | 849.21 | 990.75 | 1,132.28 | 1,273.82 | 1,556.89 | 1,839.96 | 2,123.03 | 2,547.64 | 2,972.25 |
| Llanbedrog | 844.92 | 985.74 | 1,126.56 | 1,267.38 | 1,549.02 | 1,830.66 | 2,112.30 | 2,534.76 | 2,957.22 |
| Llanberis | 848.59 | 990.03 | 1,131.46 | 1,272.89 | 1,555.75 | 1,838.62 | 2,121.48 | 2,545.78 | 2,970.08 |
| Llanddeiniolen | 835.60 | 974.87 | 1,114.13 | 1,253.40 | 1,531.93 | 1,810.47 | 2,089.00 | 2,506.80 | 2,924.60 |
| Llandderfel | 840.35 | 980.40 | 1,120.46 | 1,260.52 | 1,540.64 | 1,820.75 | 2,100.87 | 2,521.04 | 2,941.21 |
| Llandwrog | 850.28 | 991.99 | 1,133.71 | 1,275.42 | 1,558.85 | 1,842.27 | 2,125.70 | 2,550.84 | 2,975.98 |
| Llandygai | 843.59 | 984.18 | 1,124.78 | 1,265.38 | 1,546.58 | 1,827.77 | 2,108.97 | 2,530.76 | 2,952.55 |
| Llanegryn | 849.90 | 991.55 | 1,133.20 | 1,274.85 | 1,558.15 | 1,841.45 | 2,124.75 | 2,549.70 | 2,974.65 |
| Llanelltyd | 846.07 | 987.09 | 1,128.10 | 1,269.11 | 1,551.13 | 1,833.16 | 2,115.18 | 2,538.22 | 2,961.26 |
| Llanengan | 845.51 | 986.43 | 1,127.35 | 1,268.27 | 1,550.11 | 1,831.95 | 2,113.78 | 2,536.54 | 2,959.30 |
| Llanfair | 843.99 | 984.65 | 1,125.32 | 1,265.98 | 1,547.31 | 1,828.64 | 2,109.97 | 2,531.96 | 2,953.95 |
| Llanfihangel y Pennant | 844.99 | 985.83 | 1,126.66 | 1,267.49 | 1,549.15 | 1,830.82 | 2,112.48 | 2,534.98 | 2,957.48 |
| Llanfrothen | 844.61 | 985.38 | 1,126.15 | 1,266.92 | 1,548.46 | 1,830.00 | 2,111.53 | 2,533.84 | 2,956.15 |
| Llangelynnin | 841.96 | 982.29 | 1,122.61 | 1,262.94 | 1,543.59 | 1,824.25 | 2,104.90 | 2,525.88 | 2,946.86 |
| Llangywair | 842.32 | 982.71 | 1,123.09 | 1,263.48 | 1,544.25 | 1,825.03 | 2,105.80 | 2,526.96 | 2,948.12 |
| Llanllechid | 840.83 | 980.96 | 1,121.10 | 1,261.24 | 1,541.52 | 1,821.79 | 2,102.07 | 2,522.48 | 2,942.89 |
| Llanllyfni | 848.60 | 990.03 | 1,131.47 | 1,272.90 | 1,555.77 | 1,838.63 | 2,121.50 | 2,545.80 | 2,970.10 |
| Llannor | 840.11 | 980.12 | 1,120.14 | 1,260.16 | 1,540.20 | 1,820.23 | 2,100.27 | 2,520.32 | 2,940.37 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 844.29 | 985.00 | 1,125.72 | 1,266.43 | 1,547.86 | 1,829.29 | 2,110.72 | 2,532.86 | 2,955.00 |
| Llanuwchllyn | 850.90 | 992.72 | 1,134.53 | 1,276.35 | 1,559.98 | 1,843.62 | 2,127.25 | 2,552.70 | 2,978.15 |
| Llanwnda | 846.47 | 987.54 | 1,128.62 | 1,269.70 | 1,551.86 | 1,834.01 | 2,116.17 | 2,539.40 | 2,962.63 |
| Llanycil | 842.46 | 982.87 | 1,123.28 | 1,263.69 | 1,544.51 | 1,825.33 | 2,106.15 | 2,527.38 | 2,948.61 |
| Llanystumdwy | 842.91 | 983.40 | 1,123.88 | 1,264.37 | 1,545.34 | 1,826.31 | 2,107.28 | 2,528.74 | 2,950.20 |
| Maentwrog | 845.13 | 985.99 | 1,126.84 | 1,267.70 | 1,549.41 | 1,831.12 | 2,112.83 | 2,535.40 | 2,957.97 |
| Mawddwy | 841.49 | 981.73 | 1,121.98 | 1,262.23 | 1,542.73 | 1,823.22 | 2,103.72 | 2,524.46 | 2,945.20 |
| Nefyn | 850.76 | 992.55 | 1,134.35 | 1,276.14 | 1,559.73 | 1,843.31 | 2,126.90 | 2,552.28 | 2,977.66 |
| Pennal | 847.96 | 989.29 | 1,130.61 | 1,271.94 | 1,554.59 | 1,837.25 | 2,119.90 | 2,543.88 | 2,967.86 |
| Penrhyndeudraeth | 862.07 | 1,005.75 | 1,149.43 | 1,293.11 | 1,580.47 | 1,867.83 | 2,155.18 | 2,586.22 | 3,017.26 |
| Pentir | 849.35 | 990.91 | 1,132.47 | 1,274.03 | 1,557.15 | 1,840.27 | 2,123.38 | 2,548.06 | 2,972.74 |
| Pistyll | 844.83 | 985.64 | 1,126.44 | 1,267.25 | 1,548.86 | 1,830.47 | 2,112.08 | 2,534.50 | 2,956.92 |
| Porthmadog | 849.11 | 990.62 | 1,132.14 | 1,273.66 | 1,556.70 | 1,839.73 | 2,122.77 | 2,547.32 | 2,971.87 |
| Pwllheli | 858.82 | 1,001.96 | 1,145.09 | 1,288.23 | 1,574.50 | 1,860.78 | 2,147.05 | 2,576.46 | 3,005.87 |
| Talsarnau | 853.53 | 995.78 | 1,138.04 | 1,280.29 | 1,564.80 | 1,849.31 | 2,133.82 | 2,560.58 | 2,987.34 |
| Trawsfynydd | 847.09 | 988.28 | 1,129.46 | 1,270.64 | 1,553.00 | 1,835.37 | 2,117.73 | 2,541.28 | 2,964.83 |
| Tudweiliog | 842.35 | 982.74 | 1,123.13 | 1,263.52 | 1,544.30 | 1,825.08 | 2,105.87 | 2,527.04 | 2,948.21 |
| Tywyn | 851.57 | 993.49 | 1,135.42 | 1,277.35 | 1,561.21 | 1,845.06 | 2,128.92 | 2,554.70 | 2,980.48 |
| Waunfawr | 840.61 | 980.72 | 1,120.82 | 1,260.92 | 1,541.12 | 1,821.33 | 2,101.53 | 2,521.84 | 2,942.15 |
| Y Felinheli | 849.35 | 990.90 | 1,132.46 | 1,274.02 | 1,557.14 | 1,840.25 | 2,123.37 | 2,548.04 | 2,972.71 |
| Y Ganllwyd | 855.88 | 998.53 | 1,141.17 | 1,283.82 | 1,569.11 | 1,854.41 | 2,139.70 | 2,567.64 | 2,995.58 |